**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-932
Ein cyf/Our ref VG/07839/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

4 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr 12 Hydref ynghylch Deiseb P-05-932 'Addysg ar alergeddau bwyd mewn ysgolion a hyfforddiant EPI-PEN gorfodol'.

Cynhaliodd y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol gyfarfod cychwynnol eleni â swyddogion a chlinigwyr sy'n arbenigo mewn alergeddau ac imiwnoleg. Nod y cyfarfod oedd ennill dealltwriaeth well o wasanaethau alergeddau ac imiwnoleg ledled Cymru; y problemau a'r heriau y mae byrddau iechyd yn eu hwynebu; a beth y gellid ei wneud yn ganolog i gefnogi dioddefwyr alergeddau ac anaffylacsis a gwasanaethau ar lefel genedlaethol.

Yn anffodus, mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio ynghyd â nifer o adolygiadau cynlluniedig eraill er mwyn caniatáu i'r holl adnoddau sydd gennym gael eu canolbwyntio ar gefnogi ymateb Llywodraeth Cymru i Covid-19.

Rydym mewn pandemig byd-eang o hyd ac yn symud i mewn i'r gaeaf, adeg pan fo gwasanaethau iechyd yn wynebu pwysau aruthrol yn gyffredinol. Mae angen inni fod yn realistig ynghylch yr hyn y gellir a'r hyn na ellir ei gyflawni yn y cyfnod anodd hwn. Bu angen i bolisi gofal iechyd ganolbwyntio bron yn llwyr ar y pandemig ac o ganlyniad, effeithiwyd ar ofal alergeddau ac imiwnoleg ynghyd â llawer o agweddau eraill ar ddarparu gwasanaethau canolog.

Er hynny, hoffwn eich sicrhau bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i ddarparu'r gofal gorau posibl i bobl Cymru sy'n dioddef o alergeddau ac anaffylacsis ac fe fyddwn yn ailafael yn y gwaith cyn gynted ag y bydd amgylchiadau'n caniatáu.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.